

# Wrth iddynt 'ddod yn fwy medrus

## Dwli Dwl

### Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Casglu gwrthrychau o ystod eang o gynwysyddion. Ar eu pen eu hunain/ mewn parau/mewn timau bach – dylai'r plant wisgo bib o liw penodol a dechrau'r gweithgaredd yn eu 'cornel cartref' mewn 'gardd' fawr sgwâr. Gosodwch yr un faint o wrthrychau lliw mewn ardal fawr yng nghanol yr 'ardd' neu mewn cynwysyddion sydd wedi'u gwasgaru o amgylch yr 'ardd', e.e. 3 thîm: melyn, coch, gwyrdd – tua 20 o fagiâu ffa o bob lliw. Mae un plentyn ar y tro'n symud o bob cuddfan cartref, yn casglu eu gwrthrychau lliw cyn gynted ag y bo modd, ac yn eu cario'n ôl i'w gosod yn eu cornel cartref. Dylent gystadlu yn erbyn y cloc neu dîm arall
- Symud mewn amrywiaeth o ffyrdd i gasglu eu gwrthrychau
- Cludo eu gwrthrychau mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Datrys problemau gwybyddol drwy gasglu cliwiau neu gasglu gwrthrychau i gublhau tasg yn eu cuddfan cartref



### Cyfleoedd i:

- weithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer
- cymryd cyfrifoldeb am dynnu'r offer allan a'u rhoi i gadu
- cynnal gweithgarwch am gyfnodau priodol
- adnabod a disgrifio'r newidiadau corfforol i'w cyrff tra byddant yn gwneud gwahanol fathau o weithgarwch

### Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cyflymder
- Cuddfan cartref
- Dewis, dethol, datrys, meddwl, cyfrifo, didoli, paru
- Rhedeg, llwynog, cerdded, neidio, rhoi i lawr, codi, gosod, cadw cydbwysedd, guthio, tynnu, taflu dan ysgwydd, casglu, stopio, dal, pasio, cario, rhoio, cicio, rhedeg ar ôl, dilyn, sgipio, ochrgamu, rhagwthio, taflu â dwy law, bownsio pêl, taflu dros ysgwydd, driblo â'r traed, driblo â'r dwylo, trapio â'r traed, taro gwrthrych â'r dwylo neu fat
- Pedlo, sgrialu, trafod, llywio, osgoi, ymwybyddiaeth ofodol
- Ras gyfnewid, gwaith fîm, cymryd eu tro

### Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc (mwy o farcwyr na phlant)
- Bagiau ffa, teganau meddal
- Rhubanau, sgarffiau
- Rhaffau sgipio
- Coefiau
- Amrywiaeth o beli, batiau, ac ati

### Cwestiynau

- Beth wnaethoch chi i sicrhau nad oeddech chi'n taro yn erbyn neb arall?
- Disgrifiwch sut y gwnaethoch chi gario/cludo eich gwrthrychau.
- P'un oedd eich hoff ffordd o gasglu'r gwrthrychau?
- P'un oedd eich ffordd gyflymaf o gasglu a dychwelyd y gwrthrychau?
- Sut gallech chi gublhau'r dasg yn gynt?
- Sut roeddech chi'n teimlo ar ddiwedd y gweithgaredd?

### Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- eich bod yn dechrau â nifer fach o blant mewn lle mawr
- eich bod yn cynyddu nifer y plant ac yn lleihau'r lle sydd ar gael yn raddol
- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn cofio am eu 'swigod', ac yn cadw allan o 'swigod' plant eraill er mwyn osgoi taro yn eu herbyn
- bod y plant yn cymryd gofal wrth gasglu offer yr un pryd â phlant eraill

## A allwch chi weld y plentyn?

- Yn gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer?
- Yn cymryd cyfrifoldeb am dynnu'r offer allan a'u rhoi i gadw?
  - Yn cynnal gweithgarwch am gyfnodau priodol?
- Yn adnabod ac yn disgrifio'r newidiadau corfforol i'w cyrff tra byddant yn gwneud gwahanol fathau o weithgarwch?

weithiau

gan amlaf

### Anogwch y plentyn i:

- weithio mewn lle llai o faint gyda mwy o blant
- defnyddio sgiliau mwy cymhleth i gublhau'r gweithgaredd
- cynllunio'r offer ar gyfer y gweithgaredd, a chymryd mwy o gyfrifoldeb am dynnu'r offer allan a'u rhoi i gadw
- gosod targedau ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gublhau'r gweithgaredd
- disgrifio sut mae ymarfer corff yn effeithio ar y corff, a rhoi rhesymau i egluro pam y mae gweithgarwch corfforol dyddiol yn dda iddo

### Anogwch y plentyn i:

- ymarfer gweithgareddau ar ei ben ei hun i ddechrau, gan gynyddu nifer y plant sydd yn yr 'ardd' yn raddol
- trafod pa wrthrych y mae'n bwriadu ei gasglu, sut y bydd yn ei gasglu ac o ba gynhwysydd, cyn iddo ddechrau
- cynyddu ei gyflymder a'i amser gweithio'n raddol
- gweithio gyda phlentyn arall i drafod sut mae'n teimlo wrth iddo wneud ymarfer corff, a defnyddio drych i weld rhai o'r newidiadau sy'n digwydd wrth iddo wneud ymarfer corff

### Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Lles – deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau
- Datblygiad Mathemategol: Trin data – casglu, cofnodi a dehongli data er mwyn gwella perfformiad